MORGAN, THOMAS (1769 - 1851), caplan yn y llynges

Enw: Thomas Morgan
Dyddiad geni: 1769
Dyddiad marw: 1851
Rhiant: Philip Morgan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: caplan yn y llynges
Maes gweithgaredd: Crefydd; Milwrol
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 6 Rhagfyr 1769, yn fab i Philip Morgan o Ddefynnog - gweler ach y teulu yn Theophilus Jones, *History of the County of Brecknock* (3ydd arg.), iv, 134-8, a chymharer yr ysgrif 'Morgan, G. E. F.', uchod. Addysgwyd ef yn ysgol Coleg Crist, Aberhonddu, dan David Griffith, ac yng Ngholegau Wadham a Iesu yn Rhydychen; graddiodd yn 1790 (D.D. 1824), ac urddwyd ef; ond torrodd ei iechyd i lawr, ac yn 1793 cymerth gaplaniaeth yn y llynges. Yr oedd ym mrwydr enwog ' y cyntaf o Fehefin,' 1794 (clwyfwyd ef ynddi); yn Spithead ddechrau 1798 pan dorrodd gwrthryfel ymhlith y llongwyr (gyda'r dynion yr oedd cydymdeimlad Morgan, a bu ei ddylanwad arnynt yn help i dawelu'r anghydfod); ac ym mrwydr Ushant, 21 Ebrill o'r un flwyddyn. Bu'n gaplan-ysgrifennydd i'r llyngesydd Cotton o 1799 hyd 1807; wedyn yn gaplan i amryw o ysbytai'r llynges; ac o 1817 ymlaen yn gaplan y dockyard yn Portsmouth, lle y bu farw, 22 Tachwedd 1851.

Daliodd amryw fywiolaethau hefyd; curadiaeth barhaol Talyllychau a Llansadwrn, rheithoraeth Llanfaches (rhoes lestri cymun i'r eglwys yno), a ficeriaeth King's Langley, Swydd Hertford. Ar farw ei unig fab (1844) gwerthodd ei stad ym Mrycheiniog.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Theophilus Jones, Edwin Davies, Joseph Russell Bailey, *History of the County of Brecknock*, iv, 138-40

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford* (peth gwahaniaeth yn y dyddiadau rhwng y ddwy ffynhonnell)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q7792556

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

×

Jenkins, R. T., (1953). MORGAN, THOMAS (1769 - 1851), caplan yn y llynges. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORG-THO-1769

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu